Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Nodyn

## ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR - B B 61.16

### 1. Cyfarfodydd ac ymweliadau

Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, rwyf wedi cynnal y cyfarfodydd ac ymweliadau canlynol (nad oeddent wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cadeirydd).

- **Cadair Idris** – ymweliad â Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cadair Idris gyda'r Rheolwr, Paul Williams.
- **Coleg Cymraeg Cenedlaethol** – gyda'r Cyfarwyddwr, Dr Ioan Matthews, i drafod cyfleoedd i gysylltu gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru o ran yr iaith Gymraeg â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- **Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau** – cyfarfod gydag Alec Don, y Prif Weithredwr, i drafod datblygiadau yn y porthladdoedd a rhan Cyfoeth Naturiol Cymru yn y rhain.
- **Ardal Llanwddyn** – cyfarfod â thîm coedwigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru i weld y gwaith o amgylch Llyn Efyrnwy.
- **Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant** – i wneud cyflwyniad i'r uwch dîm a chwrdd â nhw. Nodwyd gwell cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu pellach.
- **Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam** - i wneud cyflwyniad i'r uwch dîm a chwrdd â nhw. Diddordeb penodol yn yr ochr peirianneg a chemeg.
- **Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Brymbo, Wrecsam** – i gwrdd â grŵp Treftadaeth Brymbo y mae eu safle yn cynnwys y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a ddynodwyd oherwydd ffosilau.
- **Cyngor Gofal Cymru** – cyfarfod gyda'r Prif Weithredwr, Sue Evans, i drafod materion sy'n berthnasol i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.
- **Crindau, Casnewydd** – gyda staff Cyfoeth Naturiol Cymru i ymweld â'r cynllun lliniaru llifogydd arfaethedig.
- **Ystad y Goron** – cyfarfod rheolaidd ynghyd â'r Tîm Gweithredol ac uwch aelodau Ystad y Goron; ffocws arbennig ar faterion morol.
- **Maint Cymru** – Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal cyfarfod Maint Cymru, ac annog staff i gefnogi un o'n helusennau cysylltiedig.

### 2. Rhaglen Newid Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Rhaglen Newid y Tîm Gweithredol wedi dod i ben; mae rhai diwygiadau wedi cael eu gwneud oherwydd i Clive Thomas ymadael ar ddiwedd mis Hydref. Mae Rhaglen Newid y Tîm Arweinyddiaeth ar y gweill a dylai gael ei chwblhau erbyn mis Rhagfyr.

3. **Grŵp Llywio Pobl a Thimau**

Mae'r grŵp, gyda thrawstoriad o bobl o bob rhan o Gyfoeth Naturiol Cymru, wedi cyfarfod tair gwaith. Mae Zoe Henderson a Madeleine Havard wedi mynd i'r cyfarfod ar ran y Bwrdd. Mae'r ffocws cychwynnol wedi bod ar 'fanteision cyflym' i wella arferion gweithio o fewn y sefydliad ac mae'r grŵp yn symud ymlaen at faterion mwy hirdymor megis diwylliant a gwaith ymgysylltu.

4. **Rhaglen Arweinyddiaeth Tyfu**

Ar 27 Medi byddaf yn lansio rhaglen arweinyddiaeth Tyfu ar gyfer rheolwyr canol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, fel rhan o'r Strategaeth Pobl a Thimau.

**Emyr Roberts** **9 Medi 2016**